
# BBC micro:bit - cewri codio

**Gwasanaeth ysgol**



## 1. Wrth i'r disgyblion gyrraedd

Wrth i'r disgyblion gyrraedd y gwasanaeth, dangoswch lun y micro:bit:

https://teach.files.bbci.co.uk/micro-bit%20assembly.png

## 2. Cyflwyniad

**Gofynnwch**: Ydych chi'n gwybod beth yw hwn? Esboniwch i'r disgyblion y byddwn yn dod i wybod popeth sydd i'w wybod am y BBC micro:bit a'r holl bethau gallwn ni eu gwneud gyda'r micro:bit.

**Eglurwch**: Mae'r micro:bit yn ddyfais gyfrifiadurol go iawn y gellir ei haddasu i ddatrys problemau, chwarae gemau a chynnal ymchwiliadau.

## 3. Chwaraewch y fideo

Gwyliwch y fideo **micro:bit - cewri codio** gyda'ch gilydd fel dosbarth. Mae'n para 4' 05".

https://www.bbc.co.uk/teach/microbit/fideo-gwasanaeth-ysgol/zv9cjfr

## 4. Amser sgwrsio

Ewch ati i **arwain trafodaeth** am ddyfeisiau cyfrifiadurol sydd yn ein bywydau bob dydd drwy ofyn cwestiynau fel:

- Pa ddyfeisiau cyfrifiadurol ydyn ni'n eu gweld a'u defnyddio bob dydd?

Gofynnwch i'r plant am eu profiadau blaenorol o raglennu a chodio. Ydyn nhw'n gallu egluro pam mae ANGEN rhaglen gyfrifiadurol ar ddyfeisiau cyfrifiadurol? A yw codio a rhaglennu yr un peth? Ydyn nhw erioed wedi ysgrifennu rhaglen gyfrifiadurol i wneud i robot tegan symud, neu i greu gêm gyfrifiadurol?

**Esboniwch** fod angen rhaglennu cyfrifiaduron a bod pobl sy'n gwneud y swydd honno yn cael eu galw'n rhaglenwyr neu'n godwyr cyfrifiaduron.

**Dilynwch hyn** gyda thrafodaeth am swyddi a gyrfaoedd yn y dyfodol, nad ydynt o bosibl yn bodoli eto.

**Gofynnwch** gwestiynau fel:

- Allech CHI fod yn rhaglennydd cyfrifiaduron?

**Dylech eu hatgoffa** y byddan nhw'n cael cyfle i ysgrifennu eu cod eu hunain a dod yn rhaglenwyr cyfrifiaduron fel rhan o brosiect micro:bit. Pwysleisiwch eu bod NHW yn godwyr ac yn rhaglenwyr cyfrifiadurol.




## 5. Cyfle i fyfyrio

Rydyn ni'n ffodus iawn o gael mynediad at dechnoleg sy'n ein helpu gyda bywyd bob dydd ac yn ein diddanu. Dylen ni gofio ei defnyddio'n gyfrifol a'i pharchu.

Dylen ni hefyd feddwl am yr holl adnoddau a phobl a helpodd i greu'r dechnoleg a'r dyfeisiau rydyn ni'n eu defnyddio, ac sy'n gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn rhedeg yn ddiogel ac yn effeithlon.

BBC micro:bit cewri codio

© BBC 2023